

# Cynllun corfforaethol 2015/16

---

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Sut y byddwn yn gweithio	4
Blaenoriaeth:	
Mireinio ein dull arolygu newydd	5
Gwella ansawdd a hyd ein hachosion addasrwydd ymarfer (AY)	6
Datblygu model addasrwydd parhaus i ymarfer (APY)	7
Adolygu safonau addysg fferyllol	8
Adolygu safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad	9
Parhau i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd	10
Amserlen amlinellol	11

---

©Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2015

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon e-bostiwch **communications@pharmacyregulation.org** neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan  
**[www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications](http://www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications)**

# Cyflwyniad

**Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd Prydain Fawr. Ein gwaith yw gwarchod iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio fferyllfeydd, a helpu i wella ansawdd gwasanaethau fferyllol. Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn egluro ein blaenoriaethau ar gyfer 2015/16. Bydd y rhain yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion, a ddisgrifir yn ein cynllun strategol ar gyfer 2015-18.**

**Nod ein cynllun corfforaethol yw:**

- hysbysu ein rhanddeiliaid o'n blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2015/16, a sut y byddwn yn gwybod a ydym wedi llwyddo i'w gwireddu
- rhoi datganiad clir i'n tîm rheoli gweithredol ac i'n staff o'r blaenoriaethau allweddol fydd yn ein helpu i wireddu Cynllun Strategol 2015-2018
- darparu teclynnau y gallwn eu defnyddio i fonitro'r gweithgareddau hyn, er mwyn i ni asesu ein cynnydd a'n perfformiad yn y gwaith o wireddu amryfal rannau Cynllun Strategol 2015-2018

# Sut y byddwn yn gweithio

Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn ein helpu i gyflawni ein rôl yn diogelu'r cyhoedd.

## Byddwn yn gweithio i gyflawni'r amcanion a ddisgrifir yn y cynllun strategol, ac yn benodol yn:

- gwneud diogelwch cleifion yn rhan allweddol o'n dull rheoleiddio fferyllfeydd – yn enwedig yn y ffordd y byddwn yn defnyddio canfyddiadau adroddiadau pwysig ar fethiannau mewn gofal, megis Francis, Berwick, Andrews ac Ysbyty Bro Leven
- defnyddio agwedd tair gwlad tuag at gynllunio a pholisi, gan ystyried y gwahaniaethau rhwng darpariaethau fferyllol gwahanol rannau Prydain
- sicrhau bod ein dull rheoleiddio fferyllol yn ystyried y newidiadau yng ngwasanaethau iechyd cenedlaethol Prydain
- gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) ym mhob peth a wnawn
- cynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliad eraill yn ein gwaith
- gwneud gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn rhan o'n holl waith, er mwyn lleihau risgiau i gleifion a'r cyhoedd
- gweithio gyda llywodraethau i sicrhau bod deddfwriaeth sy'n berthnasol i'n gwaith yn dod i rym gynted â phosibl

# Mireinio ein dull arolygu newydd

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi'r thema strategol: *Darparu gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o ansawdd dda*

## **Sut bydd llwyddiant yn edrych?**

- Bydd gennym fodel arolygu terfynol fydd yn ystyried barn cleifion a'r cyhoedd, gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd, a phrofiad y CFC o'r model arolygu prototeip
- Bydd adroddiadau arolygu cyhoeddedig hawdd dod o hyd iddynt a hawdd eu defnyddio gan gleifion, y cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol ar gael
- Bydd gennym fodel arolygu sy'n gymesur ac sy'n ystyried y risgiau perthnasol
- Bydd lleihad mesuradwy yn nifer y fferyllfeydd sy'n aros i gael eu harolygu

## **Prif gysylltiadau a thybiaethau**

- Bydd amserlen yr ymgynghoriad a chyhoeddi adroddiadau arolygu yn dibynnu ar adeg cymeradwyo'r ddeddfwriaeth

## **Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant**

- Ymgynghori ar y model arolygu terfynol, gan gynnwys defnyddio 'byrddau trafod' i gasglu barn
- Cyflwyno system cyhoeddi adroddiadau arolygu
- Cyflwyno mecanwaith adolygu ffurfiol ar gyfer goruchwylwyr a pherchnogion sy'n anghytuno gyda barn arolygu gychwynnol a roddir i fferyllfa
- Datblygu dangosyddion risg i helpu gyda'r gwaith o gynllunio arolygiadau
- Cytuno ar 'fodel rhesymegol' ar gyfer rheoleiddio fferyllfeydd a chynnal gwerthusiad allanol ar y ffordd yr ydym yn rheoleiddio fferyllfeydd

## **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

- Sicrhau bod pawb sydd am fod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y model arolygu terfynol yn gallu bod
- Sicrhau bod yr adroddiadau arolygu cyhoeddedig yn hygyrch i unrhyw un sydd am eu darllen

# Gwella ansawdd a hyd ein hachosion addasrwydd ymarfer (AY)

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi'r cynllun strategol: *Darparu gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o ansawdd dda*

## **Sut bydd llwyddiant yn edrych?**

- Byddwn yn delio gydag achosion yn unol â'n safonau perfformiad
- Byddwn yn gwneud penderfyniadau cywir a chymesur drwy gydol y broses AY
- Byddwn yn ymateb yn gyflym i risgiau i ddiogelwch cleifion

## **Prif gysylltiadau a thybiaethau**

- Bydd nifer y gofidiau a dderbyniwn yn dal i gynyddu
- Gwelliannau yn ansawdd data mewnol a'r defnydd a wneir ohono

## **Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant**

- Diweddarau ein proses addasrwydd ymarfer drwyddi draw
- Adolygu'r defnydd a wnawn ar orchmynion dros dro, er mwyn i ni ddelio yn gyflymach gyda materion a allai fod yn rhai brys
- Gwella'r ffordd y mae'r timau arolygu ac addasrwydd ymarfer yn cydweithio

## **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

- Rydym yn defnyddio dulliau dadansoddi gwell er mwyn i ni ddeall nodweddion CAC ein hachosion AY yn well

# Datblygu model addasrwydd parhaus i ymarfer (APY)

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi'r thema: *Rhoi pobl wrth galon yr hyn a wnawn fel rheoleiddiwr*

## Sut bydd llwyddiant yn edrych?

- Sicrwydd ychwanegol i gleifion a'r cyhoedd bod aelodau cofrestredig yn addas i ymarfer, gan ein bod wedi cyflwyno proses sicrwydd ansawdd pellach - model ar gyfer APY
- Y model APY yn ateb disgwyliadau'r cyhoedd o'n rôl yn sicrhau addasrwydd ymarfer ein haelodau
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r model APY ymhlith aelodau cofrestredig

## Prif gysylltiadau a thybiaethau

- Yn gysylltiedig â'r adolygiad ar Ymddygiad, moeseg a pherfformiad, fydd yn safon graidd ar gyfer APY
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid

## Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant

- Adolygu ein cynllun datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Datblygu a phrofi'r cynllun adolygu gan gymheiriaid o fewn APY gyda phartneriaid\*
- Datblygu a phrofi dangosyddion perfformiad ar gyfer y cynllun APY\*

*\*cyn peilot yn 2016/17*

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- Rhaid i'r model ystyried anghenion grwpiau amrywiol o aelodau cofrestredig
- Rhaid i'r model ystyried anghenion gwahanol wledydd Prydain drwy allu cael ei addasu i'w gwahanol gyd-destunau
- Byddwn yn ymglymu ac ymgynghori mewn ffordd gynhwysol wrth ddatblygu'r polisi

# Adolygu safonau addysg fferyllol

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi'r thema strategol: *Hybu diwylliant o broffesiynoldeb gyda'r claf yn ganolog iddo*

## Sut bydd llwyddiant yn edrych?

- Bydd gennym gasgliad perthnasol o safonau rheoleiddio addysg a hyfforddiant craidd i fferyllwyr
- Bydd gennym gasgliad perthnasol o safonau rheoleiddio addysg a hyfforddiant craidd i dechnegwyr fferyllol
- Bydd gennym gasgliad perthnasol o safonau rheoleiddio addysg a hyfforddiant craidd i staff cymorth fferyllol
- Bydd y safonau yn ateb disgwyliadau'r cyhoedd ac yn adlewyrchu gwerthoedd proffesiynol
- Bydd lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith addysgwyr, myfyrwyr, hyfforddeion a rhanddeiliaid perthnasol eraill
- Bydd gennym broses sicrhau ansawdd ddiwygiedig ar gyfer addysg fydd yn addas at ei diben, yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed i'r safonau addysg a hyfforddiant

## Prif gysylltiadau a thybiaethau

- Yn gysylltiedig gyda'r adolygiad ar Safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad
- Yn gysylltiedig gyda'r rhaglenni diwygio addysg yng ngwahanol wledydd Prydain, yn enwedig o ran amseru
- Yn gysylltiedig gyda'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol a arweinir gan Sgiliau Iechyd (Mawrth 2015 tan Fawrth 2016)
- Byddwn yn trafod y safonau newydd ar gyfer fferyllwyr gyda Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon er mwyn iddynt gael eu gweithredu ledled y DU (nid Prydain yn unig)

## Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant

- Cynhyrchu papur trafod cychwynnol yn crynhoi'r safonau newydd ar gyfer y tîm fferyllol (fel cam cyn datblygu'r safonau eu hunain)
- Comisiynu astudiaeth i ddarganfod canfyddiadau technegwyr fferyllol ynghylch addysg a hyfforddiant
- Cynnal rhaglen ymglymu ar addysg a hyfforddiant aelodau'r tîm fferyllol, a'r prosesau sicrhau ansawdd sy'n mynd law yn llaw â nhw
- Cynllunio a gweithredu'r dulliau cyfathrebu strategol fydd ynghlwm wrth lansio a gweithredu'r safonau newydd

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- Rhaid i gynnwys y safonau ddelio gyda'r materion perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, ddyletswyddau proffesiynol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Rhaid i'r cynnwys adlewyrchu anghenion gwledydd Prydain
- Byddwn yn ymglymu ac ymgynghori mewn ffordd gynhwysol wrth ddatblygu'r polisi
- Byddwn yn asesu'r effaith ar fyfyrwyr â nodweddion sydd wedi eu diogelu



# Adolygu safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi'r thema: *Hybu diwylliant o broffesiynoldeb gyda'r claf yn ganolog iddo*

## **Sut bydd llwyddiant yn edrych?**

- Bydd gennym gasgliad o safonau craidd diwygiedig ar gyfer y proffesiwn gyda chanllawiau angenrheidiol yn gefn iddynt
- Bydd y safonau yn ateb disgwyliadau'r cyhoedd ac yn adlewyrchu gwerthoedd proffesiynol
- Bydd lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith aelodau cofrestredig, myfyrwyr fferylliaeth, hyfforddeion a rhanddeiliaid eraill

## **Prif gysylltiadau a thybiaethau**

- Yn gysylltiedig â'r adolygiad ar safonau addysg a hyfforddiant
- Yn gysylltiedig gyda gwaith allanol ar faterion perthnasol, megis didwylledd a diwylliant sefydliadau
- Bydd cod ymddygiad myfyrwyr fferylliaeth yn cael ei adolygu yn rhan o'r llif gwaith hwn
- Addasrwydd parhaus i ymarfer yn dibynnu ar allbwn y gwaith hwn yn darparu'r safon y bydd addasrwydd parhaus i ymarfer yn cael ei fesur yn ei erbyn

## **Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant**

- Cynnal rhaglen ymglymu ac ymgynghori
- Datblygu'r safonau, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol
- Cynllunio a gweithredu'r dulliau cyfathrebu sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r safonau newydd

## **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

- Bydd cynnwys y safonau yn delio gyda materion perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, ddyletswyddau proffesiynol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Byddwn yn ymglymu ac ymgynghori mewn ffordd gynhwysol wrth ddatblygu'r polisi

# Parhau i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd

Mae hyn yn cefnogi'r thema strategol: *Darparu gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o ansawdd dda*

## **Sut bydd llwyddiant yn edrych?**

- Bydd gwelliannau effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn arwain at arbedion penodol yn y tymor hirach
- Byddwn wedi gwella cynhyrchedd data, y gallwn ei ddefnyddio wrth gynllunio adnoddau a gwneud penderfyniadau rheoli

## **Prif gysylltiadau a thybiaethau**

- Yn gysylltiedig â phob blaenoriaeth arall
- Yn gysylltiedig gyda datblygiadau yn ein seilwaith TG, yn enwedig systemau gwybodaeth newydd

## **Yr hyn a wnawn yn 2015/16 i sicrhau llwyddiant**

- Cynnal adolygiad effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd
- Mireinio'r model dyrannu costau ymhellach
- Parhau i gynyddu ein capasiti i chwilio drwy a defnyddio ein data

## **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

- Byddwn yn cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a argymhellir gan yr adolygiad effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

# Amserlen amlinellol

	Ebrill i Fehefin 2015	Gorffennaf i Fedi 2015	Hydref i Ragfyr 2015	Ionawr i Fawrth 2016
<b>Mireinio ein dull arolygu newydd</b>	Asesu canlyniadau ein hymchwil gwerthuso  Cyflwyno'r mecanwaith adolygu ar gyfer canfyddiadau arolygu y mae anghytundeb yn eu cylch	Paratoi'r rheolau arolygu drafft  Paratoi'r ymgynghoriad ar ein model rheoleiddio fferyllfeydd	Ymgynghori ar rannau allweddol ein model rheoleiddio fferyllfeydd	Paratoi a chyfathrebu ynghylch y broses arolygu statudol lawn
<b>Gwella ansawdd a hyd ein hachosion addasrwydd ymarfer (AY)</b>	Datblygu meini prawf diwygiedig ar gyfer cyhoeddi gorchmynion dros dro  Datblygu canllaw i gyflogwyr ar ddelio gyda gofidiau	Ymgynghori ar feini prawf gorchmynion dros dro a'r canllaw i gyflogwyr	Cyhoeddi meini prawf diwygiedig ar gyfer gorchmynion dros dro  Cyhoeddi canllaw i gyflogwyr ar ddelio gyda gofidiau	
<b>Datblygu model addasrwydd parhaus i ymarfer (APY)</b>	Adolygu'r cynllun DPP ac adrodd i'r cyngor ym Mehefin  Datblygu a phrofi prosesau adolygu gan gymheiriaid a dangosyddion perfformiad	Datblygu a phrofi prosesau adolygu gan gymheiriaid a dangosyddion perfformiad ar gyfer APY	Gwerthuso a chynnig opsiynau peilota i'r cyngor	Paratoi i beilota
<b>Adolygu safonau addysg fferyllol</b>	Cyhoeddi papur trafod yn crynhoi'r safonau newydd ar gyfer y tîm fferyllol, galw am adborth a dadansoddi'r adborth  Creu grwpiau drafftio safonau  Comisiynu a derbyn astudiaeth ar ganfyddiadau ynghylch addysg a hyfforddiant  Gweithio gyda Sgiliau Iechyd i ddatblygu SGC newydd (tan Fawrth 2016)	Drafftio'r safonau newydd i fferyllwyr yn fanwl	Drafftio'r safonau newydd i fferyllwyr yn fanwl	Ymgynghoriad ar y safonau newydd i fferyllwyr yn dechrau  Drafftio'r safonau newydd i dechnegwyr fferyllol a staff cefnogi fferyllol yn fanwl
<b>Adolygu safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad</b>	Cynnal y rhaglen ymglymu a gwneud y gwaith cychwynnol ar ddatblygu'r safonau	Ymgynghori ar y drafft cyntaf	Adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chynhyrchu drafft terfynol	Adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chynhyrchu drafft terfynol. Y safonau newydd i gael eu cymeradwyo Mawrth 2016
<b>Parhau i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd</b>	Cynnal yr adolygiad effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd  Mireinio'r model dyrannu costau ymhellach	Cynnal yr adolygiad effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd  Mireinio'r model dyrannu costau ymhellach	Datblygu rhaglen effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb a phroses gosod ffioedd 2016/17	Y Gyllideb yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd 2016/17

### **Gwybodaeth bellach**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y CFfC gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

**Post** 25 Canada Square, Llundain, E14 5LQ

**Ffôn** 020 3713 8000

**Y We** [pharmacyregulation.org](http://pharmacyregulation.org)

**E-bost** [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)

**twitter** @TheGPhC

**Facebook** [.com/TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)

**LinkedIn** [.com/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)

**Cyngor  
Fferyllol  
Cyffredinol**